Cyfnewidfa Lên Cymru
Wales Literature Exchange

| CANLLAWIAU CRONFA GRANTIAU CYFIEITHU | WALES LITERATURE EXCHANGE : |
|---|---|
| CYFNEWIDFA LÊN CYMRU | TRANSLATION GRANTS FUND GUIDELINES. |
| Dyma'r canllawiau a ddefnyddir gan Gyfnewidfa Lên Cymru i asesu'r ceisiadau Grantiau Cyfieithu a dderbynnir gennym. Mae hi'n ddogfen agored sy'n cael ei gwerthuso'n rheolaidd. Trafodir ein canllawiau gydag ein chwaer-sefydliadau ar draws Ewrop mewn cyfarfodydd blynyddol, er mwyn sicrhau ein bod yn ymlynu at safonau rhyngwladol wrth asesu. | This document outlines the Guidelines used by Wales Literature Exchange to assess the applications to the Translations Grants Fund. It is an open document that is reviewed regularly. Our guidelines are discussed with similar organizations across Europe in annual meeting in order to ensure that we adhere to International standards in our assessment. |
| **Adran A - A yw'r cais yn gymwys?**<br>**Adran B - Ystyriaethau'r panel wrth gefnogi ceisiadau**<br>**Adran C - Gwybodaeth bellach** | **Section A - Is the application eligible?**<br>**Section B - Considerations for the Panel in supporting applications**<br>**Section C - Further Information** |

Cyfnewidfa Lên Cymru
Wales Literature Exchange

| ADRAN A: A YW’R CAIS YN GYFLAWN AC YN GYMWYS | SECTION A - IS THE APPLICATION COMPLETE AND ELIGIBLE? |
| --- | --- |
| • Dylai’r cais ddod gan gyhoeddwr. Nid ddylai’r ceisiadau ddod gan gyfieithwyr, awduron, sefydliadau ac ati. | • The application must be submitted by a publisher. Applications should not be submitted by translators, authors, institutions etc. |
| • Dylai’r cyhoeddwr sydd yn cyflwyno’r cais fod yn gyhoeddwr gyda phroffil cenedlaethol, rhanbarthol, neu ryngwladol, sydd â dealltwriaeth o'r farchnad darged ac sydd â phrofiad o’r broses o gyhoeddi cyfieithiadau llenyddol. | • The publisher submitting the application should have a national, regional or international profile and an understanding of the target market and experience of the process of publishing translated literature. |
| • Rhaid bod gan y cyfieithydd y profiad a’r sgiliau priodol, a rhaid cyflwyno CV’r cyfieithydd. Gall Cyfnewidfa Lên Cymru ofyn am sampl ac am adroddiad darllenydd. | • The translator should have the required skills and experience, and the translator’s CV must be presented. WLE reserves the right to request a sample of the translation and a reader’s report. |
| • Rhaid i’r gwaith y gwneir cais i’w gyfieithu, fod gan awdur a anwyd yng Nghymru, neu sydd yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd, neu sydd â chysylltiad diwylliannol cryf â Chymru, neu sydd wedi ei gyhoeddi gan wasg o Gymru. | • The application must be to translate a text written by an author born in Wales, or living in Wales or having strong cultural connections with Wales, or published by a Welsh publishing house. |

| Cymraeg | English |
|---|---|
| • Rhaid bod y dogfennau priodol, a ofynnir amdanynt yn y ffurflen gais, wedi eu cyflwyno.<br><br>• Mae'r panel yn barod i ystyried cefnogaeth tuag at gomisiynu cyfieithiadau sampl yn ogystal.<br><br>**ADRAN B: YSTYRIAETHAU'R PANEL WRTH GEFNOGI CEISIADAU**<br><br>1. **Silff Lyfrau'r Gyfnewidfa** Bob blwyddyn dewisir detholiad o gyfrolau llenyddol Cymreig i'w cyflwyno fel rhan o Silff Lyfrau'r Gyfnewidfa. Pwrpas y Silff Lyfrau yw cyflwyno detholiad o blith cyfrolau llenyddol Cymru a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, sy'n addas i'w hyrwyddo'n rhyngwladol. Fel man cychwyn, dyma'r llyfrau a gaiff flaenoriaeth wrth drafod gyda chyhoeddwyr a chyfieithwyr yn rhyngwladol. Unwaith mae cyfrol yn rhan o'r Silff, nid yw'n gadael y Silff. Bob blwyddyn, felly, mae llyfrau'n cael | • The appropriate documents requested in the application form must be submitted.<br><br>• The Panel is also willing to consider support towards sample translation.<br><br>**SECTION B - CONSIDERATIONS FOR THE PANEL IN SUPPORTING APPLICATIONS**<br><br>1. **WLE Bookcase** Each year a selection of Welsh literary titles is made, as WLE Bookcase. The purpose of the Bookcase is to make a selection of Welsh literary titles published during the year that are suitable to be promoted internationally. These are the books that are prioritised in the first instance when discussing internationally with publishers and translators. Once a title is selected for the Bookcase, it remains there. Therefore, new books are added annually, instead of |

| | |
|---|---|
| eu hychwanegu at y Silff yn hytrach na chymryd lle ‘hen’ lyfrau. Ystyrir a yw’r gyfrol yn rhan o’r Silff Lyfrau wrth asesu cais.<br><br>2. **A yw’r cais yn dod gan gyhoeddwr sy’n gweithredu mewn marchnad gyhoeddi a gaiff flaenoriaeth strategol gan y Gyfnewidfa?** Mae’r Gyfnewidfa’n adolygu’n flynyddol ei blaenoriaethau o ran marchnadoedd cyhoeddi i’w targedu. Rhoddir ystyriaeth gadarnhaol i geisiadau gan gyhoeddwyr o’r marchnadoedd hynny.<br><br>3. **A yw’r cais yn agor drysau i farchnad gyhoeddi newydd?** Mae gan rai gwledydd, a rhai marchnadoedd byd eang, gysylltiad hanesyddol a chryf gyda Chymru. Mae gwledydd a marchnadoedd eraill yn fwy caeedig. Rhoddir ystyriaeth gadarnhaol i gais gan gyhoeddwr gyda phroffil cenedlaethol neu ranbarthol fyddai’n agor drysau i farchnad gyhoeddi newydd. Byddai angen ystyried yn ogystal y cyd-destun ehangach. Er enghraifft, a oes posibilrwydd y byddai’r cyhoeddwr penodol hwn yn ymddiddori mewn cyhoeddi | replacing the previous year’s books. This is a consideration when applications are assessed.<br><br>2. **Does the application come from a publisher operating in a publishing market that is strategically prioritised by WLE?** WLE reviews its priorities annually in terms of targeted publishing markets. Positive consideration is given to applications from publishers from these markets.<br><br>3. **Does the application open doors to a new publishing market?** Some countries, and some global markets have a strong and historic connection to Wales. Other markets are more closed. Positive consideration is given to applications from publishers with a national or regional profile that would open the door to a new publishing market. The wider context must also be considered. For example, is there a possibility that the publisher could be interested in publishing further Welsh titles? Are there any connections between other Welsh authors and this territory? Have other Welsh or British organizations been |

| | |
|---|---|
| cyfrolau pellach o Gymru? A oes unrhyw gysylltiadau gan awduron eraill o Gymru gyda'r diriogaeth hon? A yw sefydliadau eraill Cymreig neu Brydeinig wedi gweithio'n ddiweddar yn y diriogaeth hon? A gynhaliwyd gweithdy cyfieithu gan un o'n partneriaid yno? A oes awduron o'r diriogaeth hon wedi dod i Gymru ar ymweliad proffesiynol, neu'n bwriadu dod i Gymru yn y dyfodol agos? A yw'r diriogaeth hon yn mynd i chwarae rôl flaenllaw mewn ffair lyfrau neu ŵyl ryngwladol arwyddocaol yn y dyfodol agos? Ai dyma'r cyhoeddwr mwyaf addas i dorri tir newydd yno?<br><br>4. **A yw'n amserol i gyfieithu'r gwaith?** Rhai ystyriaethau fyddai a yw'r gwaith yn ymateb i ddigwyddiadau cyfoes neu hanesyddol mewn ardal benodol; a fu'r gwaith yn llwyddiant yng Nghymru/Prydain yn ddiweddar ac i ba raddau y gellir manteisio ar y diddordeb hwn wrth hyrwyddo dramor; a yw'r awdur yn ymweld â ffair lyfrau neu ŵyl yn y dyfodol agos lle byddai cyfieithiad i iaith y wlad honno ar yr achlysur hwnnw yn hwb i werthiant a | working recently in this territory? Was there a translation workshop organized by one of our partners? Have authors from this territory visited Wales on a professional visit, or intending to do so in the near future? Is this territory going to play an important role in a significant book fair or festival in the near future? Is this the most appropriate publisher to pave the way here?<br><br>4. **Is this the right moment to translate the work?** Such considerations might include: does the work respond to contemporary or historical events in a specific area; was the title/work successful recently in Wales / UK and to what degree can this contribute to international promotion; is the author visiting a book fair or festival in the future where a translation into that country's language in that event could be a boost to sales and success of the book? Is it particularly timely too, in considering the translator of the work? |

| | |
|---|---|
| llwyddiant y llyfr? A yw'n arbennig o amserol hefyd o ystyried y cyfieithydd ar gyfer y gwaith? | 5. **Is the work a classic or is it contemporary?** When discussing with overseas publishers and translators, it is important to present the classics as well as contemporary work. The support from the Translation Grants Fund should reflect this. |
| 5. **A yw'r gwaith yn glasur neu'n gyfoes?** Pan yn trafod gyda chyhoeddwyr a chyfieithwyr dramor, mae angen medru cynnig clasuron yn ogystal â gwaith cyfoes iddynt. Mae angen i'r gefnogaeth o'r gronfa grantiau cyfieithu adlewyrchu hynny. | 6. **Is the author or the work/title culturally significant?** What is the cultural context of the work or author? Is it important that we promote it because of its influence within the literary culture of Wales or further afield in the British Isles? Was there specific attention to this work/author recently? |
| 6. A **yw'r awdur neu'r gwaith yn ddiwylliannol arwyddocaol?** Beth yw cyd-destun diwylliannol y gwaith neu'r awdur? A ydyw'n bwysig ein bod yn hyrwyddo'r gwaith oherwydd ei ddylanwad o fewn diwylliant llenyddol Cymru neu yn ehangach yn Ynysoedd Prydain? A gafwyd sylw penodol i'r awdur/gwaith hwn yn ddiweddar? | 7. Is there a professional relationship between the publisher of the translation and the agent or the publisher of the original work? Do they have the relevant experience? |
| 7. A oes perthynas waith yn bodoli eisoes rhwng cyhoeddwr y cyfieithiad a'r asiant neu gyhoeddwr y gwaith gwreiddiol? A yw'r profiad perthnasol ganddynt? | 8. Is the translator suitable for the project? Is the agreement with the translator satisfactory? |

| | |
|---|---|
| **8.** A yw'r cyfieithydd yn addas ar gyfer y prosiect? A yw'r cytundeb gyda'r cyfieithydd yn foddhaol?<br><br>**9.** A ddylid cyrchu mwy o wybodaeth am gyhoeddwr a chyfieithydd arfaethedig y cyfieithiad, os nad yn adnabyddus i'r Gyfnewidfa a'r cyhoeddwr gwreiddiol?<br><br>**10.** A oes angen cefnogaeth ariannol ar y cyhoeddwr? Wedi ystyried nifer yr argraffiad, ffî'r cyfieithydd a phris y gwaith arfaethedig, a oes achos busnes clir dros gefnogaeth tuag at y costau cyfieithu? A ellid cyhoeddi heb gyfraniad tuag at y costau cyfieithu?<br><br>**ADRAN C: GWYBODAETH BELLACH**<br><br>**1. Canrannau**<br><br>Gellir cynnig hyd at uchafswm o 100% o gostau ffî'r cyfieithydd. Ar hyn o bryd, rydym hefyd yn argymell cynnig | **9.** Should more information be sought on the publisher and the proposed translator, if they are nor known to WLE and the original publisher?<br><br>**10.** Does the publisher need financial support? After giving consideration to the print run, translator's fee, price per unit, is there a clear business case for support towards translation costs? Could the publication go ahead without a contribution towards the translation costs?<br><br>**SECTION C: FURTHER INFORMATION**<br><br>**2. Percentages**<br><br>Up to 100% of the translator's fee may be awarded. At present, we recommend awarding 50% of the translation costs. Under normal circumstances, we would not offer a sum to one application if it represents more than 25% of the total fund available. |

| | |
|---|---|
| isafswm o 50% o gostau'r cyfieithydd. Ni fyddai'n arferol cynnig swm i un cais a fydd yn fwy na 25% o'r Gronfa lawn.<br><br>**2. Dyddiad asesu**<br><br>Bydd dwy rownd y flwyddyn yn arferol.<br><br>**3. Y Panel**<br><br>Aelodaeth gyfredol y panel asesu: Cyfarwyddwr, Swyddog Grantiau, Cadeirydd y Bwrdd Strategol, ac un arbenigwr o'r diwydiant cyhoeddi rhyngwladol.<br><br>**4. Amodau**<br><br>Gweler ar ein gwefan yr amodau y disgwylir i gyhoeddwyr gydymffurfio â hwy i sicrhau taliad y grant a awdurdodwyd: **www.cyfnewifdalen.cymru**<br><br>Diweddariad 2019 | **2. Date of Assessment**<br><br>Two rounds are generally held. .<br><br>**3. The Panel**<br><br>The membership of the panel shall include: Director, Chair of Strategic Board, Translation Grants Officer, one specialist of international literary publishing.<br><br>**4. Conditions**<br><br>The Website presents the conditions for publishers to ensure that the grant awarded can be paid. **www.waleslitexchange.org**<br><br>Last review 2019 |